Y Gwir Anrh/Rt Hon Eluned Morgan AS/MS
Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: FM-/MaG/PO/624/25

Mabon ap Gwynfor AS
Mabon.ap.Gwynfor@senedd.wales

03 Rhagfyr 2025

Annwyl Mabon,

Rwy'n ysgrifennu i egluro'r data perfformiad a rannais yn ystod y Cyfarfod Llawn ddoe mewn ymateb i'r trafodaethau am berfformiad oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty.

Yn ystod y drafodaeth, cyfeiriais at y ffaith bod cyfanswm yr oedi wedi gostwng 17%, amseroedd aros ar gyfer asesiadau wedi gostwng 22%, a chyfanswm y dyddiau oedi wedi gostwng 12%.

I gadarnhau, yn 2024/25 (Mawrth 2024 i Fawrth 2025), gosododd y Pwyllgor Gweithredu Gofal dargedau cenedlaethol ar gyfer lleihau oedi wrth ryddhau cleifion. Gyda chefnogaeth gweithgareddau drwy'r her 50 diwrnod, gostyngodd yr oedi wrth ryddhau gan 17%, yr oedi ar gyfer asesiadau gan 22%, a chyfanswm y dyddiau oedi gan 12%, o gymharu â'r llinell sylfaen ym Mawrth 2024, gan ragori ar ddau o'r tri tharged a osodwyd gan y Pwyllgor Gweithredu Gofal.



Eluned Morgan

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.